

ATODIAD 2

GWEITHGOR POLISI CYNLLUNIO – 16 Medi, 2026

5. ADRODDIAD MONITRO BLYNYDDOL (AMB) 8

Dechreuodd y Gweithgor gyda chyflwyniad gan Arweinydd Tîm Polisi Cynllunio Cyngor Gwynedd ar ddangosyddion Adroddiad Monitro Blynnyddol (AMB) 8, sef yr AMB olaf o dan y Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd presennol. Amlygwyd fod yr holl ddangosyddion wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn a bod y data a gyflwynwyd yn cynnwys ffigurau ffeithiol. Rhoddwyd trosolwg o'r AMB, gan egluro bod y casgliadau'n deillio o'r gwaith monitro a gynhelir yn flynyddol gan y gwasanaeth polisi cynllunio. Esboniwyd mai pwrpas yr adroddiad yw asesu effeithiolrwydd strategaeth a fframwaith polisiau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Cafodd y Gweithgor eglurhad hefyd o'r modd y caiff dangosyddion eu hasesu a'u sgorio yn erbyn y meini prawf llwyddiant sy'n gysylltiedig â pholisiau'r Cynllun. Rhannwyd y prif ganfyddiadau gyda'r aelodau, gan dynnu sylw at y canrannau a'r data perthnasol a gasglwyd wrth baratoi AMB 8. Wrth gloi'r cyflwyniad, nododd y swyddog y bydd canfyddiadau AMB 8, ynghyd â'r adroddiadau monitro blaenorol, yn darparu tystiolaeth werthfawr i lywio'r gwaith o baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd.

Materion a godwyd

1. Amlygwyd aelod yr angen i gymharu canfyddiadau'r AMB presennol â rhai blynnyddoedd blaenorol mewn modd mwy cyson, er mwyn gallu adnabod y dangosyddion a'r materion sy'n gofyn am fwy o sylw neu ystyriaeth. Gofynnwyd hefyd am eglurhad ynghylch y camau nesaf a'r prif risgiau a nodwyd. Yn ogystal, holwyd a yw canlyniadau rhai dangosyddion yr AMB yn or-ddibynnol ar gynnydd safleoedd datblygu mawr, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys pum uned neu fwy.
2. Awgrymodd aelod y dylid ystyried sefyllfa bresennol yr AMB a'r CDLI mewn modd mwy realistig. Nodwyd y dylid cydnabod nad yw'r targedau a osodwyd ar gyfer twf swyddi a'r boblogaeth wedi'u cyflawni yn unol â disgwyliadau'r Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd. Cyfeiriwyd hefyd at ganlyniadau apeliadau cynllunio, gan nodi y gall yr AMB gyflwyno apêl a wrthodwyd fel canlyniad negyddol. Fodd bynnag, awgrymwyd y gallai rhai o'r canlyniadau hyn adlewyrchu diffygion neu ragdybiaethau anghywir o fewn y Cynllun ei hun, yn hytrach na methiant yn y broses benderfynu. Defnyddiwyd prosiect Wylfa fel enghraifft o ffactor allanol a gafodd effaith sylweddol ar gyflawni amcanion y Cynllun a pherfformiad sawl dangosydd o fewn yr AMB. Pwysleisiwyd y dylai'r adroddiad roi mwy o sylw i'r ffactorau allanol a'r amgylchiadau ehangach sydd wedi dylanwadu ar y canlyniadau, er mwyn darparu darlun mwy cyflawn o'r rhesymau dros unrhyw fethiannau neu ddiffyg cynnydd yn erbyn y targedau.
3. Cefnogodd yr aelod y pwyntiau uchod a gofynnodd am eglurhad pellach ynghylch dangosydd D19 yr AMB, sy'n ymwneud â datblygiadau newydd ar safleoedd tir llwyd. Yn benodol, gofynnwyd pam fod statws y dangosydd wedi'i nodi mewn oren wrth

ystyried fod yr Adroddiad yn nodi fod y wybodaeth ddim ar gael. Dydi o ddim yn bosib dweud un ffordd neu'r llall, h.y. o bosib fod y dangosydd yn cyflawni, ond does dim gwybodaeth ar gael.

4. Dechreuodd aelod drwy gyfeirio at waith Adran Addysg y Cyngor, gan nodi ei argraff positif o'u gallu i ragweld nifer y disgyblion yn y dyfodol ac asesu'r angen am leoedd ysgol ychwanegol dros gyfnod o amser. Symudodd wedyn i drafod statws a lefel y swyddi sydd ar gael, gan nodi bod nifer y swyddi wedi bod yn is na'r hyn a ragwelwyd yn y Cynllun. Awgrymwyd bod hyn, o ganlyniad, wedi lleihau'r angen am unedau preswyl newydd. Yn dilyn hyn, gofynnodd yr aelod beth fyddai statws y Cynllun ar ôl mis Ionawr 2027. Er iddo gydnabod yr ymateb a roddwyd, mynegodd y gallai'r sefyllfa olygu bod mwy o hyblygrwydd i anwybyddu polisiau'r Cynllun wrth wneud penderfyniadau yn y dyfodol.
5. Rhannwyd yr aelod am y gwrthdaro yn y Pwyllgor Cynllunio ynglŷn â'r iaith Cymraeg a chredwyd petai cryfhau y canllaw cynllunio atodol (CCA) ar yr iaith Cymraeg yn helpu datrys y gwrthdaro. Amlygwyd yr angen i gryfhau safbwynt yr CCA yn benodol ar diroedd dynodedig ar gyfer tai. Hefyd rhannwyd y pwysigrwydd o gydnabod camgymeriadau neu fethiant dangosydd neu bolisi ac i seilio datblygiadau tai ar dargedau sydd wedi methu, defnyddiwyd Wylfa fel esiampl i'r gollyngiad mewn poblogaeth.
6. Amlygodd yr aelod fod y dangosyddion o'r AMB yn hollol ffeithiol a statudol ac nid yw'r canlyniadau'r dangosyddion yn gallu newid. Cyflwynwyd her tuag at Adran 106 a'i effaith ar dai fforddiadwy lleol. Hefyd cydnabuwyd sefyllfa staff yr adran polisi cynllunio a rhoddwyd cynnig i dderbyn AMB 8.
7. Cytunodd yr aelod â'r sylwadau a wnaed ynghylch yr AMB, gan gyfeirio hefyd at yr heriau sy'n ymwneud â chapasiti ac adnoddau o fewn y tîm Polisi Cynllunio. Parhaodd i drafod effaith prosiect Wylfa ar gyflogaeth yn yr ardal, gan nodi bod methiant i wireddu'r lefelau cyflogaeth a ragwelwyd wedi cael goblygiadau uniongyrchol ar y galw am dai. Fodd bynnag, amlygwyd bod canran uwch o unedau tai fforddiadwy wedi'u darparu nag a ragwelwyd, sy'n adlewyrchu ac yn cefnogi amcanion strategol y Cyngor. Gofynnodd yr aelod hefyd a oedd unrhyw ystyriaeth wedi'i rhoi i bolisiau sy'n ymwneud â dwysedd datblygiadau preswyl wrth baratoi'r Cynllun Datblygu Lleol newydd. Mewn ymateb, nodwyd ei bod yn debygol y bydd angen ailystyried a lleihau'r lefelau dwysedd mewn rhai achosion er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gofynion a pholisiau cenedlaethol, yn enwedig mewn perthynas â draenio.
8. Nododd Aelod y dylid amlygu methiannau / anaddasrwydd mesuryddion a'r fframwaith fonitro pan yn y cyflwyno'r adroddiad i Llywodraeth Cymru.

Ymatebion

1. Eglurodd y swyddog fod perfformiad a llwyddiant y dangosyddion yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn, gan ddibynnu ar nifer o ffactorau allanol a lleol. Wrth bwysleisio pwysigrwydd yr AMB fel ffynhonnell dystiolaeth ar gyfer llywio'r Cynllun Datblygu Lleol newydd, nodwyd bod y targedau ar gyfer darparu tai fforddiadwy yn cael eu cyflawni, a bod mwy o safleoedd eithrio wedi'u datblygu yn ystod cyfnod AMB 8 nag mewn unrhyw gyfnod monitro blaenorol o dan y Cynllun presennol. Amlygwyd hefyd bwysigrwydd rhoi ystyriaeth fanwl i faterion tai a'r Gymraeg wrth baratoi'r Cynllun newydd. Nodwyd fod canlyniadau'r dangosyddion yn gallu amrywio'n sylweddol yn flynyddol, a bod y swyddogion yn gyfyngedig i adrodd ar y data a'r ceisiadau a dderbynnir yn ystod y cyfnod monitro perthnasol. Ychwanegodd swyddog arall fod angen adolygu canfyddiadau'r Adroddiadau Monitro Blynyddol blaenorol er mwyn adnabod y meysydd hynny sydd angen eu diweddarau neu eu hailystyried o fewn y CDLI newydd. Pwysleisiwyd y bydd angen rhoi sylw i ystod eang o faterion wrth symud ymlaen â'r broses o baratoi'r Cynllun. Nodwyd ymhellach fod angen parhau i roi sylw manwl i'r fframwaith polisi cenedlaethol, a chadarnhawyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio i amlygu'r materion hyn yn fanylach. Yn olaf, cydnabuwyd y gallai risgiau penodol godi yn ystod y cyfnod rhwng diwedd y Cynllun Datblygu Lleol presennol a mabwysiadu Cynllun newydd, yn enwedig mewn perthynas ag apeliadau cynllunio a'r pwysau a allai godi yn sgil absenoldeb cynllun datblygu cyfredol.
2. Amlygwyd mae polisiâu cynllunio wedi'i ddylunio ar gyfer amgylchiadau annisgwyl ar be gall ddigwydd a nodwyd hefyd mai hyblygrwydd yr polisiâu sydd yn bwysig i ddelio hefo materion annisgwyl. Rhannodd swyddog fod dangosyddion yr AMB yn destun trafodaeth yn aml rhwng swyddogion.
3. Nododd y swyddog nad oes dull clir ar hyn o bryd o fonitro na mesur llwyddiant y dangosydd hwn. O ganlyniad, ystyrir bod angen adolygu a chryfhau'r dangosydd er mwyn sicrhau ei fod yn darparu sail fwy cadarn ar gyfer monitro perfformiad wrth symud ymlaen gyda'r CDLI newydd. Cynnig ychwanegu testun i'r AMB sydd yn amlygu hyn sydd wedi ei godi gan yr aelod.
4. Mewn ymateb, eglurwyd mai statws y Cynllun fydd parhau fel ystyriaeth gynllunio faterol, ac felly ni fydd y Cyngor yn gallu ei anwybyddu'n llwyr wrth wneud penderfyniadau cynllunio. Cyfeiriwyd hefyd at bwynt cynharach yr aelod ynglŷn yr Adran Addysg, gan nodi bod yr Adran yn cael ei hymgyngori ar geisiadau cynllunio perthnasol ar gyfer datblygiadau tai ac wedi cyfrannu at brosesau paratoi'r CDLI presennol yn ogystal â'r Cynllun newydd sy'n cael ei ddatblygu. Pwysleisiwyd ymhellach y bydd statws y Cynllun ar ôl mis Ionawr 2027 yn parhau fel ystyriaeth gynllunio faterol, ac na fydd swyddogion cynllunio na'r Cyngor yn ei anwybyddu wrth asesu ceisiadau. Nodwyd hefyd y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio a fydd yn egluro'r sefyllfa a'r goblygiadau yn fwy manwl. Rhannwyd mai'r brif ystyriaeth wrth wneud penderfyniadau fydd y cynllun datblygu sydd mewn grym ar y

pryd, gan nodi bod polisïau'r Cynllun presennol yn parhau i fod yn gyson â chyfeiriad a gofynion y fframwaith cynllunio cenedlaethol.

5. Cydnabod yr pwynt a godwyd. Mae amgylchiadau CDLI yn gallu newid a mi fydd yr proses statudol yno i ddelio efo newidiadau a wynebir.
6. Nodi'r sylw
7. Cytuno mi fydd angen ailedrych ar bolisïau ar gyfer cwrdd dwysedd i gydymffurfio efo newidiadau deddfwriaeth ac i wneud y defnydd gorau o dir. Rhannwyd y pryderon bod targedau ddim yn cael ei gwrdd yng nghyd-destun y CDLI wrth nodi mae materion e.e. topograffi yn gallu effeithio ar amgylchiadau ceisiadau a datblygiadau.
8. Nododd y swyddog fod effaith peidio â gwireddu prosiect Wylfa wedi cael ei chydabod a'i hadlewyrchu o fewn y gwaith monitro perthnasol. Eglurodd hefyd fod y Cynllun Datblygu Lleol wedi dangos ei allu i ymateb i amgylchiadau a newidiadau annisgwyl, gan gyfeirio at lwyddiant y ddarpariaeth tai fforddiadwy fel enghraifft o hyn.